Bethan Jenkins AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Yn ystod Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd i mi ar 28 Ebrill 2010, fe ofynnoch chi a oedd rhywun wedi ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y newidiadau i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA). Hefyd, fe ofynnoch a oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn unrhyw ohebiaeth gan unigolion oedd yn anhapus ynghylch y broses ymgynghori. Rwyf bellach wedi edrych i mewn i'r mater ar eich rhan.

Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw gweinyddu a darparu budd-daliadau nawdd cymdeithasol, lle bynnag mae'n bosibl, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio'n agos iawn gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn sicrhau nad yw'r modd y mae'n datblygu ei bolisïau'n sicrhau na fydd dinasyddion Cymru o dan anfantais.

O 27 Hydref 2008, disodlwyd Budd-dal Analluogrwydd a Chymhorthdal Incwm a dalwyd ar sail analluogrwydd gyda Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Yn ystod y broses o gynllunio'r budd-daliad newydd hwn, bu'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymgynghori gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau yn cynrychioli cwsmeriaid, ymarferwyr meddygol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Fodd bynnag, nid yw'n arfer gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ymgysylltu'n uniongyrchol â chwsmeriaid unigol ynghylch datblygu polisïau a rhoi'r polisïau hyn ar waith.

Yn ôl ein cofnodion, ni anfonwyd unrhyw ohebiaeth at Lywodraeth y Cynulliad ynghylch y modd y cynhaliwyd y broses ymgynghori. Fodd bynnag, rydym wedi derbyn rhywfaint o ohebiaeth gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, sy'n bryderus nad yw'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Asesiad o Alluedd i Weithio yn diwallu anghenion pobl ag awtistiaeth.

Yn ddiweddar, bu Llywodraeth y Cynulliad yn ymgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau fel rhan o adolygiad o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, er mwyn ymateb i nifer o faterion sydd wedi dod i'r amlwg yn dilyn mis Hydref 2008. Mae un mater yn ymwneud â'r ffaith bod angen i ni wella'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer unigolion sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar gyfer dod o hyd i gyflogaeth ac mae mater arall yn ymwneud â pha mor effeithiol yw'r Asesiad o Alluedd i Weithio. Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda'r grwpiau uchod ar draws y grŵp ac ym mis Mawrth 2010, cyhoeddwyd Papur Gorchymyn o'r enw '*Building bridges to work: new approaches to tackling long term worklessness*' sy'n amlinellu bwriad yr Adran Gwaith a Phensiynau i adolygu'r system y mae wedi'i sefydlu i gynorthwyo pobl sydd ag anableddau.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ateb eich cwestiynau.

Carl Sargeant AC